



Gwybodaeth i chi a'ch rhiant/gwarcheidwad

Mae'r brechlyn COVID-19 yn cael ei gynnig i bob plentyn 12-15 oed yng Nghymru, er mwyn helpu i ddiogelu eich iechyd a llesiant.

Mae'r penderfyniad i gael eich brechiad COVID-19 yn ddewis i bob unigolyn ei wneud.

Os oes gennych gwestiynau am y brechlyn cymerwch amser i chwilio am wybodaeth y gellir ymddiried ynddi a chywir - mae'r GIG bob amser yn fan cychwyn da - a sgwrsio am yr hyn rydych chi'n ei feddwl, gyda'ch rhiant/rhieni neu warcheidwad.

Mae'n debygol bod gennych hefyd deulu neu ffrindiau sydd wedi cael eu brechlyn ac a allai sgwrsio â chi am sut roeddent yn teimlo, neu helpu i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Rhaid i chi roi cytundeb clir (a elwir yn 'ganiatâd') cyn y gellir rhoi unrhyw frechiad - felly chi sy'n gyfrifol am yr hyn sy'n digwydd.

Mae llawer o wybodaeth ar gael am frechlyn COVID-19, felly byddwch yn ofalus a defnyddio gwybodaeth gywir y gellir ymddiried ynddi yn unig i'ch helpu i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych

Dyma rai lleoedd y gellir ymddiried ynddynt i chi gael rhagor o wybodaeth ynghylch pam rydych yn cael cynnig y brechlyn, unrhyw sgil-ffeithiau y gallech eu profi. Byddant hefyd yn cynnig rhagor o wybodaeth i chi am y brechlyn neu os na allwch gytuno â'ch rhiant/rhieni neu warcheidwad ar beth i'w wneud:

**Iechyd Cyhoeddus
Cymru**



BBC



**Iechyd Cyhoeddus
Lloegr**



**Cymdeithas
Imiwnoleg Prydain**



Efallai y byddwch yn dal i gael budd o gael y brechlyn hyd yn oes os ydych wedi cael COVID-19 o'r blaen. Os ydych wedi profi'n positif am haint COVID-19 yn y 28 diwrnod diwethaf, mae angen i chi aros ychydig yn hirach i gael eich brechlyn. Mae angen i'ch dos cyntaf fod o leiaf 28 diwrnod ar ôl i chi brofi'n positif.

P'un a ydych yn cael y brechlyn ai peidio, daliwch ati i wisgo masg mewn mannau cyhoeddus dan do, gan aros gartref a chael prawf a oes gennych symptomau coronafeirws, a daliwch ati i olchi eich dwylo'n rheolaidd.